

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWDYD A'R NOS LUN 26AIN O FEDI 2022 YN Y CABAN, YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cyngorwyr Arwel Davies (Cadeirydd), Philip Williams, Ian Evans, Geraint Jones a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorwyr Ceri Davies, Rhian Evans, Bari Evans a'r Cyngorydd Sir Elfed Williams.

3. DDATGAN DIDDORDEB: Y Cyngorydd Arwel Davies ar eitem 12A isod.

4. ETHOLAETH Y CYNGOR A'R BROSES O GYFETHOL.

A. Derbyniwyd y Clerc ymddiswyddiad Elfed Williams fel aelod o'r Cyngor Cymuned Llanrhaeadr. Mi fydd Elfed Williams yn mynychu'r cyfarfodydd y Cyngor Sir yn y dyfodol fel ein Cyngorydd Sir Ddinbych.

B. Mi fydd y Clerc yn cyhoeddi'r "Hysbysiad o Gyfethol" o'r tair sedd wag sydd yn dal yn bodoli.

5. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 25ain o Orffennaf 2002 y Cyngor yn gywir.

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA.

A: Nid mae Mr Rob Sheppard, Perchenog Sheppard Homes ddim bellach am gytuno prynu arwydd newydd Pentre' Llanrhaeadr wrth y datblygiad newydd ym Mhentre' Llanrhaeadr.

B. Mae'r Cyngor Sir Ddinbych ddim â rhoi biniau ysbwriel (yn cynnwys baw Cwn) yn yr hen lan yn Llanrhaeadr wrth yr Eglwys oherwydd nid fyddent yn cael eu defnyddio.

C. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb Ben Wilcox-Jones am gymorth am atal y cyflymder traffig.

D. Nodwyd yr Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych y ffyrdd sydd eisiau eu trwsio a fydd yn cael eu trwsio pryd fydd y cyllid ar gael i'w thrwsio.

7. PANEL WYBODAETH YN LLANRHAEADR.

Dim adroddiad wedi ei dderbyn i'r cyfarfod.

8. GWELYAU BLODAU YN Y GYMUNED.

Dim adroddiad wedi ei dderbyn i'r cyfarfod.

9. GOEDEN NADOLIG YN GYNNWYS GOLEUADAU NADOLIG YN Y GYMUNED.

Derbyniwyd adroddiad Y Cyngorydd Geraint Jones yn cadarnhau'r gwaith trydan i'r cyswllt trydan i'r goleuadau'r Goeden Nadolig ym Mhentre' Llanrhaeadr, mae'r gofynion adrannau eraill ynglŷn ar Goden Nadolig, sef cytuno'r lleoliad, goleuadau ar y goeden ac yn y blaen yn golygu nid oes yna ddigon o amser am gytuno popeth cyn y Nadolig.

10. MATERION CYLLID.

A. Datganiad Banc £18,232.12.

B. Derbyniwyd ail ran o'r precept y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2022/23 - £5,280.00.

C. Rhoddwyd awdurdod i'r taliadau canlynol:-

1. Chostau'r fisol y Banc £5.00 y mis.

2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2022 £502.10.

3. HM Revenue & Customs am PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2022 £125.40.

11. CEISIADAU CYNLLUNIO.

Cais Cynllunio 23/2022/0344 - Codi 3 anedd gan gynnwys gosod gwaith trin pecyn, ffurfio mynedfa i gerbydau a gwaith cysylltiedig ar dir yn Llwyn Afon, Llanrhaeadr. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ofyn am hanes ceisiadau cynllunio ar safle'r datblygiad cyn rhoi sylwadau ychwanegol ar y cais cynllunio.

12. GOHEBIAETH.

A: Derbyniwyd llythyr ar ran Capel y Pentre' Llanrhaeadr i ofyn a fyddai Cyngor Cymunedol Llanrhaeadr yn fodlon ysgrifennu llythyr o gefnogaeth ar gyfer cais gan y Capel am grant o gronfa Melin Gwynt y Brenig.

Mae ymddiriedolwyr ac aelodau'r capel wedi bod yn trafod ers cryn amser ynglŷn â dyfodol yr adeilad, ac wedi cytuno symud ymlaen i ddarganfod os byddai trigolion yr ardal a defnyddwyr presennol yr adeilad, yn dymuno ei weld yn cael ei addasu fel adeilad mwy aml bwrpas er budd y gymuned a'r ardal ehangach, yn enwedig gan nad oes neuadd gymunedol yn bodoli yn Llanrhaeadr, nac yn nalgylch y plwyf. Mi fyddai yn parhau i fod yn ganolfan addoli i'r aelodau presennol ac i unrhyw unigolion fyddai'n dymuno cyd-addoli â ni.

Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Llywio, sydd yn cynnwys unigolion o'r gymuned, i ddatblygu'r syniadau am yr adeilad. Y cam cyntaf yw ceisio am grant o gronfa'r Brenig i gomisiynu person annibynnol i gwblhau astudiaeth dichonoldeb, yn cynnwys ymgynghoriad gyda'r gymuned ehangach. I'r pwrpas yma, mi fyddem yn hynod o ddiolchgar os byddai'r cyngor yn gallu paratoi llythyr o gefnogaeth am y grant.

Mae'r cynghorwyr Arwel Davies a Rhian Evans yn aelodau o'r pwyllgor llywio, ac mi fyddant hwy yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i'r cyngor os fydd angen. Mae Bari Evans hefyd yn aelod gyda ni yn y Pentre' ac yn ymwybodol o'r gwaith yma.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc ysgrifennu llythyr o gefnogaeth ar ran Cyngor Cymuned Llanrhaeadr.

B. Chadarnhad fod Cyngorydd Sir Ddinbych, Elfed Williams, wedi bod mewn cysylltiad â Dŵr Cymru ynglŷn â'r hydrant i fyny'r lon am Y Glyn.

C. Derbyniwyd oddi wrth Un Llais Cymru "Arweiniad ar baratoi Cynllun Hyfforddiant Cyngor gan gynnwys Templed ar gyfer Cynllun".

D. Derbyniwyd "Canllawiau Arolygon Cymunedol" oddi wrth Gomisiwn Ffiniau a democratiaeth Leol Cymru.

E. Derbyniwyd lleoliad o'r 1,259 Biniâu Graean Cyngor Sir Ddinbych.

F, Tynnwyd sylw'r Cyngor Cymuned at erthygl ddiweddar yn y "Free Press" ynglŷn ar gyn safle Bryn Morfydd yn Llanrhaeadr sydd wedi cael ei ail enw yn "Oak Vale Park Lodge" sydd â diffyg parch trwy saesnegeiddio lleoedd yn ein cymdogaeth.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r perchennog at yr erthygl a chytunodd Y Cyngorydd Ian Evans rhoi'r manylion y perchennog i'r Clerc.

G. Gofynni'r Clerc gofyn am restr o'r amodau cais cynllunio Bryn Morfydd er mwyn eu trafod yn cyfarfod nesaf y Cyngor oherwydd adroddiadau fod y perchennog y safle wedi mynd yn groes i'r penderfyniadau'r amodau'r cais cynllunio.

13. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Nid oedd y Cyngorydd Sir Ddinbych yn bresennol yn y cyfarfod

14. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

A; Penderfynwyd yr aelodau i'r clerc cyd-deimlo gyda'r teulu'r diweddar Falmai Evans ar gyn Cynghorydd Cyngor Cymuned Llanrhaeadr.

B. Derbyniwyd lluniau gan Gynghorydd Ian Evans o'r gwely afon sych ar yr afon yn y cae rhwng Dolwar ar gyn Cymro yn Llanrhaeadr a chytunodd gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar broblem bosib ar y safle (sef prinder dŵr).

C. Mae'r Cyngor yn dal i ddisgwyl adroddiad bellach oddi wrth Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ddatblygiadau yn Eglwys Prion, felly gofynnwyd i'r Clerc gofyn am adroddiad diweddaraf oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ddatblygiad.

D. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r canlynol gyda Chyngor Sir Ddinbych:-

1. Gwli ar beipen ffordd wrth yr King's Head yn Llanrhaeadr wedi ei thagu.

2. Mae'r Cyngor Cymuned yn dal i ddisgwyl i'r Cyngor Sir estynnir llinell felen dwbl rhwng yr Ysgol ar Lodge yn Llanrhaeadr.

E. Mi fydd Y Cynghorwyr Barri Evans ac Elfed Williams yn gosod y ddau "Filwr Tawel" yn y dyfodol agos ar y safle wrth Ysgol Bro Cinmeirch yn Llanrhaeadr a gytunwyd gyda'r Swyddogion Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych yn ystod 2021.

15. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 31AIN O HYDREF 2022 AM 7.30 O'R GLOCH YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEDR.